



Aelodaeth 2021-22

yng Nghymru



Gweithio gyda'n haelodau i ddiogelu safonau academaidd, gwella profiad dysgu'r myfyrwyr a sicrhau enw da addysg uwch y DU drwy'r byd i gyd.

Beth mae Aelodaeth QAA yn ei olygu i chi?

Ein cynnig i'n haelodau yn y DU

Mae Aelodaeth QAA yn darparu gweledigaeth, arbenigedd ac arweiniad drwy bartneriaeth gref gyda sector addysg uwch y DU. Gan weithio gyda chi ac ar eich cyfer, dyma fanteision Aelodaeth QAA:



Diogelu enw da addysg uwch y DU drwy'r byd i gyd am ragoriaeth




Diogelu safonau academiaidd a hyrwyddo uniondeb academiaidd



Gwella profiad dysgu'r myfyrwyr lle bynnag y maent yn astudio

Rydym yn gweithio drwy'r DU gyfan i ddiogelu safonau academiaidd a sicrhau ansawdd. Mewn partneriaeth â darparwyr ymhob gwlad o'r DU – ar sail yr wybodaeth a geir gan ein cysylltiadau rhyngwladol cryf a thrwy lygadu'r gorwel – rydym yn llunio ac yn gweithredu gweithgareddau gwella sy'n ymatebol, amserol a chreadigol i sicrhau eich bod chi a'ch myfyrwyr mewn sefyllfa dda i fanteisio ar y cyfleoedd ac i wynebu'r heriau mewn amgylchedd addysg uwch sy'n newid yn gyflym.



Cynnig Aelodaeth QAA yn 2021-22

Yn ystod 2021-22, mae ein cynnig Aelodaeth yn rhychwantu **pum thema rhyngberthynol**:



Y tu hwnt i COVID-19 – Dyfodol y ddarpariaeth ddigidol a chyfunol



Gwerthuso a gwneud penderfyniadau ar sail data




Ymgysylltiad rhyngwladol a darpariaeth addysg draws-wladol



Creu Cymunedau Dysgu Cynhwysol – Llwybrau a dulliau hyblyg



Sicrhau ansawdd a safonau academaidd



Edrych y tu hwnt i'r argyfwng COVID-19 – Dyfodol y ddarpariaeth addysg ddigidol a chyfunol

Archwilio arferion da a datblygu adnoddau ymarferol.

- Dulliau digidol a chyfunol o addysgu, gan gynnwys rôl y campws yn y dyfodol.
- Gwaith asesu gan ddefnyddio dulliau dysgu digidol a chyfunol.
- Ymwreiddio arferion i alinio canlyniadau dysgu ag asesiadau.
- Gwaith i asesu sgiliau a galluoedd.



Gwerthuso a gwneud penderfyniadau ar sail data

Gwella arferion a dangos effaith y gwelliannau drwy dystiolaeth.


- Gwneud penderfyniadau ar sail dystiolaeth.
- Symud y tu hwnt i'r metrigau i werthuso beth sy'n cyfrif mewn gwirionedd ym maes addysg uwch.
- Archwilio dulliau effeithiol o werthuso ac adolygu.
- Hysbysu, cynghori a dylanwadu ar gyrff y sector addysg uwch, darparwyr a llywodraethau.



Ymgysylltiad rhyngwladol a darpariaeth addysg drawswwladol

Cefnogi rhyngwladoli mewn perthynas ag amrediad o bynciau a rhanbarthau.

- Ymgysylltu â llywodraethau, asiantaethau partner a fforymau polisi drwy'r byd i gyd.
- Cynnal partneriaethau cryf drwy Ewrop gyfan, gan sicrhau bod gan sector addysg uwch y DU lais yn Ardal Addysg Uwch Ewrop.
- Darparu cefnogaeth i fyfyrwyr rhyngwladol (yn y DU a thramor).
- Gwella ansawdd a rheoli risgiau mewn darpariaeth addysg drawswwladol a phartneriaethau rhyngwladol.
- Cefnogi aelodau sy'n gweithio gyda phartneriaid tramor drwy ein rhaglen o ddarparu gwybodaeth gefndir am wledydd penodol.



Creu Cymunedau Dysgu Cynhwysol – Llwybrau a dulliau hyblyg o ddysgu ac addysgu

Darparu cynnig creadigol o weithgareddau i sicrhau gwelliant mewn amrywiaeth o feysydd.

- Trosglwyddiad llwyddiannus myfyrwyr i astudiaethau addysg uwch, astudiaethau ôl-raddedig a byd gwaith.
- Llwybrau hyblyg a chymwysterau modiwlaid.
- Cynhwysiad a hygyrchedd yn y cwricwlwm ac ym mhrofiad y myfyrwyr.
- Mentegarwch ac entrepreneuriaeth.
- Dysgu seiliedig ar waith, prentisiaethau, cysylltiadau â chyflogwyr a chyrrff proffesiynol, statudol a rheoleiddio.
- Lles ac iechyd meddwl y myfyrwyr.
- Ymwreiddio 'Addysg ar gyfer Datblygu Cynaliadwy'.
- Hybu a pharhau i ddatblygu'r Diploma Mynediad i AU.



Sicrhau ansawdd a safonau academaidd

Diogelu safonau academaidd a sicrhau ansawdd drwy ddefnyddio pwyntiau cyfeirio i'r DU gyfan.

- Uniondeb academaidd, gan gynnwys datblygu a rhannu cymorth a chanllawiau ymarferol i'r staff a'r myfyrwyr.
- Algorithmau gradd a dosbarthiadau graddau, gan gynnwys archwilio effaith y newidiadau ym maes asesu.
- Datganiadau Meincnodi Pwnc, gan gynnwys symud ymlaen gydag adolygiad o'r Datganiadau a'u diweddarau i sicrhau eu bod yn gynhwysol ac yn ddefnyddiol i gymunedau pwnc.
- Datganiadau Nodweddion Cymhwyster, gan gynnwys datblygu Datganiadau newydd ar gyfer meysydd megis micro-gymwysterau.
- Fframweithiau credydau a chymwysterau, gan gynnwys datblygu adnoddau ategol i ymwreiddio'r Fframwaith Credydau ar gyfer Lloegr yn y broses o gynllunio rhaglenni – hefyd, fel aelodau allweddol o 'grŵp y pum gwlad', gweithio gyda chyrrff sy'n rheoleiddio cymwysterau, cyrrff cyllido a chyrrff cysylltiedig eraill ledled y DU ac Iwerddon i sicrhau bod dulliau o weithio gyda fframweithiau cymwysterau a chredydau'n parhau i gael eu deall yn glir.



Aelodaeth i'ch sefydliad cyfan

Gall pob aelod o staff a phob myfyriwr yn y sefydliadau sy'n aelodau o QAA elwa o gefnogaeth a beirniadaeth adeiladol.



Adnoddau ymarferol

Sicrhau bod yr wybodaeth gywir ar gael yn hawdd i chi, mewn amrywiaeth o ffurfiau hygyrch a chreadigol.



Digwyddiadau a gweithdai

Darparu cyfleoedd i ddatblygu a chyfnewid syniadau am y datblygiadau diweddaraf mewn polisi ac arferion.



Gwybodaeth a dylanwad

Rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i chi a chynnig cyfleoedd i chi siapio strategaethau, polisiau ac arferion ar lefel y sector, y sefydliadau a'r meysydd astudio.



Datblygiad proffesiynol

Meithrin gallu, cefnogi datblygiad proffesiynol parhaus a datblygu gwybodaeth a sgiliau ymhellach.



Rhwydweithio ac ymgysylltu

Arwain dadleuon a hwyluso trafodaethau.

Ein gwaith sy'n benodol berthnasol i Gymru


Byddwn yn parhau i weithio gyda chi, fel aelod o QAA yng Nghymru, mewn amrediad llawn o weithgareddau sy'n benodol berthnasol i Gymru, drwy weithio gyda'n gilydd i gefnogi eich ymrwymiad i wella a chyfoethogi profiad dysgu eich myfyrwyr.

Adolygiad Gwella Ansawdd

Byddwn yn parhau i ddarparu sicrwydd ansawdd allanol sy'n cael ei werthfawrogi ac yn derbyn parch, gan roi sicrwydd i'ch corff llywodraethu, eich sefydliadau partner, eich staff, eich myfyrwyr a'ch graddedigion, yn ogystal ag i Gyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru (CCAUC) a'r cyhoedd ehangach. Bydd ein dull adolygu'n parhau i ganolbwyntio ar sicrhau gwelliant ac yn dal i fod yn ymatebol i gyd-destun pob sefydliad. Yn dilyn trafodaeth gyda CCAUC a sefydliadau, aethom ati i ddiwygio'r broses Adolygiad Gwella Ansawdd ar gyfer gweddill y cylch adolygu i ganolbwyntio ar y Fframwaith Asesu Ansawdd ar gyfer Cymru a gofynion statudol CCAUC.

Byddwn yn parhau i gadw cronfa o adolygwyr arbenigol a ddedolir ac a hyfforddir yn benodol ar gyfer yr Adolygiad Gwella Ansawdd, sy'n cynnwys nifer briodol o adolygwyr sy'n medru'r Gymraeg.

Byddwn yn parhau i weithio gyda chi i werthuso'r ffordd y gweithredir yr Adolygiad Gwella Ansawdd ac i ddatblygu'r dull ymhellach er mwyn sicrhau bod eich sefydliad yn elwa gymaint ag y gall o gael ei adolygu'n allanol.



Ymateb ac adrodd i Gymru

Comisiynir ein gwaith adolygu yng Nghymru o dan y Cytundeb Fframwaith Sicrwydd Ansawdd Allanol gyda darparwyr addysg uwch. Byddwn yn adrodd i chi, ein haelodau, am ein gwaith, drwy Brifysgolion Cymru ac yn uniongyrchol i ddarparwyr unigol. Bydd hyn yn ymwneud â digwyddiadau, gwaith cysylltu a gwaith arall, yn ogystal â gweithgareddau adolygu.

Yn adroddiadau thematig a dadansoddol yr Adolygiad Gwella Ansawdd, byddwn yn ceisio nodi heriau a chryfderau sy'n gyffredinol berthnasol drwy roi cipolwg ar arferion gorau a'r heriau sy'n wynebu'r sector yng Nghymru. Yn ystod y flwyddyn nesaf, byddwn yn rhannu canfyddiadau'r cam cyntaf o adroddiadau thematig yr Adolygiad Gwella Ansawdd, a byddwn yn defnyddio'r canfyddiadau hyn i hysbysu ein hadroddiadau ar ddiwedd y cylch.



Gweithgareddau i sicrhau gwelliant

Gan elwa o'r ddealltwriaeth a'r wybodaeth a gafwyd o'n gwaith ehangach yng Nghymru, rydym yn gweithio i gynllunio a darparu rhaglenni o weithgareddau i ddod â newid sylweddol i arferion mewn meysydd blaenoriaeth a ddewisir gennych chi.

Trwy gydol 2020-21, mae QAA wedi bod yn trafod gyda darparwyr ynglŷn â sut i ddatblygu dulliau o sicrhau gwelliant ymhellach a'u symud yn eu blaenau er budd y sector. Mae QAA wedi gwahodd cydweithwyr i awgrymu meysydd sydd o ddiddordeb iddyn nhw lle gallwn hwyluso prosiectau, syniadau a rhannu arferion gorau. Mae'r trafodaethau cychwynnol am y dulliau wedi bod yn gadarnhaol iawn, ac mae'r darparwyr yn croesawu'r cyfle i gydweithio mewn meysydd sydd o ddiddordeb iddyn nhw, er budd eu myfyrwyr.

Byddwn yn cefnogi nifer o Brosiectau Gwella Cydweithredol drwy Gymru gyfan, gan ddarparu rhywfaint o gymorth ariannol ar gyfer pob un o'r prosiectau i'w helpu i gychwyn arni. Bydd y prosiectau hyn wedi eu harwain gan y sector, a byddent yn rhoi lle canolog i fuddiannau'r myfyrwyr, ac yn arwain at ganlyniadau gwirioneddol megis adnoddau, digwyddiadau a rhannu gwybodaeth i ddarparwyr yng Nghymru.

Rydym wedi cychwyn cyfres o brosiectau'n ddiweddar i ddatblygu ein gwaith a'n gwybodaeth ymhellach ac i lunio ein dulliau ar gyfer y dyfodol.

- Datblygu cyfres o astudiaethau achos o arferion da a welir yn ystod y broses Adolygiad Gwella Ansawdd a thrwy sianelau eraill.
- Cwblhau astudiaeth o'r 'tirlun/diwylliant gwella ansawdd' yng Nghymru sy'n cynnwys dadansoddiad o strategaethau, blaenoriaethau a mecanweithiau sefydliadau i sicrhau gwelliant.
- Cyhoeddi canllaw i fyfyrwyr am adolygiadau.

Rhwydwaith Ansawdd Cymru

Mae Rhwydwaith Ansawdd Cymru wedi ei sefydlu ei hun ymhellach yn fforwm trafod gwerthfawr. Byddwn yn parhau i hwyluso'r Rhwydwaith hwn i staff sy'n cymryd rhan yn y gwaith o sicrhau a gwella ansawdd fel y prif fan i ystyried materion yn ymwneud ag ansawdd.

Mae'r Rhwydwaith yn darparu cyfleoedd i rannu arferion, gan gynnwys canmoliaethau yn yr Adolygiadau Gwella Ansawdd, ac i drafod heriau, arferion a syniadau newydd. Yn ystod 2020-21, dechreuodd y Rhwydwaith gynnal sesiynau byrrach dan arweiniad aelodau i drafod materion penodol rhwng y cyfarfodydd ffurfiol er mwyn bod yn ymatebol a darparu lle cefnogol i aelodau ymdrin â heriau presennol.



Cefnogi ymgysylltiad cydweithredol ac ysgogi trafodaeth drwy'r sector cyfan

Yn rhan o gynnig aelodaeth QAA, byddwn yn:

- defnyddio ein harbenigedd i gyfrannu at feysydd sydd o ddiddordeb i'r sector addysg uwch yng Nghymru, ac i ddatblygu a gweithredu mentrau a blaenoriaethau perthnasol y llywodraeth:
 - yn bennaf, mewn perthynas â diwygiad y sector ôl-orfodol;
 - a byddwn yn parhau i ymateb i ymgynghoriadau perthnasol er budd ein haelodau
- parhau i gefnogi myfyrwyr i gymryd rhan weithredol fel partneriaid yn ein gwaith ac mewn prosesau gwella ansawdd yng Nghymru, gan geisio ffyrdd newydd o ddwysáu a chryfhau cyfranogaeth y myfyrwyr, ymgysylltiad ystyrllon a'r bartneriaeth â nhw – er enghraifft, drwy gyhoeddi canllawiau newydd i fyfyrwyr i'w helpu i ymgysylltu ag adolygiadau QAA yng Nghymru
- gweithio gyda phwyllgorau Prifysgolion Cymru, ac yn cyfrannu'n weithredol atynt, gan gynnwys y Rhwydwaith Dysgu ac Addysgu
- hybu llais a diddordebau Cymru i'r un graddau â phob un o wledydd cartref eraill y Deyrnas Unedig.

Gwaith arall QAA yng Nghymru

Yn bwysig iawn, byddwn yn parhau i weithio'n agos gyda CCAUC, Prifysgolion Cymru, Estyn, Colegau Cymru, y Coleg Cymraeg Cenedlaethol, UCM Cymru ac Advance HE yng Nghymru. Mae gennym Femorandwm Cyd-ddealltwriaeth â Chymwysterau Cymru, ac rydym yn cymryd rhan weithredol yn 'grŵp y pum gwlad'. Aethom ati'n weithredol i ymgysylltu â'r agenda i ddiwygio'r system hyfforddiant ac addysg ôl-orfodol i ddylanwadu ar drefniadau ansawdd ar gyfer y dyfodol. Byddwn yn gwneud Adolygiadau Ansawdd Porth ac ymchwiliadau o dan y Cynllun Ansawdd a Safonau Anfoddhaol pan gawn ein comisiynu i wneud hynny.

Canfod rhagor

I gael rhagor o wybodaeth am Aelodaeth QAA, edrychwch ar ein gwe-dudalennau sy'n rhoi rhagor o fanylion am yr ystod lawn o'n gwaith gyda'n haelodau, ac ar eu cyfer.



www.qaa.ac.uk/cy/aelodaeth-qa

Mae'r ddogfen hon ar gael yn y Gymraeg a'r Saesneg.

Dyddiad cyhoeddi – 10 Mai 2021

© Asiantaeth Sicrhau Ansawdd Addysg Uwch 2021

Adeiladau Cambrian, Sgwâr Mount Stuart, Caerdydd CF10 5FL

Rhifau elusen gofrestredig 1062746 ac SC037786

www.qaa.ac.uk